

CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR
COFNODION Y CYFARFOD MISOL 16.07.2026
NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID

1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Gareth Edwards, bawb i'r cyfarfod.

2. PRESENNOL

Y Cynghorydd Mel Briant
Y Cynghorydd Ieuan Davies
Y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies
Y Cynghorydd Gareth Edwards
Y Cynghorydd Alun Price Jones
Y Cynghorydd Angharad Jones
Y Cynghorydd Richard Jones
Y Cynghorydd Gareth Owen
Y Cynghorydd Elgan Williams
Eleri Thomas (Clerc)

YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Non Jones

3. MATERION YR HEDDLU

Dim Adroddiad.

4. DATGANIAD O FUDDIANT PERSONOL A RHAGFARNLLYD: Heb ei ddatgan.

5. CADARNHAU COFNODION 18 MEHEFIN 2026

CYNIGIWYD (Y Cynghorydd Elgan Williams); **EILIWYD** (Y Cynghorydd Richard Jones) a **PHENDERFYNWYD** bod Cofnodion y 18fed o Fehefin yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd

6. MATERION SY'N CODI

6.1 Pafiliwn Y Bont:

Y perchennog newydd oedd Mr Vincent Morgans, o'r 1.08.2026 ymlaen gyda'r nod o gydweithio â'r gymuned mewn perthynas â rhedeg y Pafiliwn.

6.2 Cynllun Lle: <https://placemaking-ceredigion.wales/> Roedd Pentref Pontrhydfendigaid wedi sicrhau yr ail safle o fewn y Sir o ran mewnbwn y Gymuned Dathlu'r Prosiect: Nos Fercher 8 Gorffennaf 2026 6pm-8pm. Hen Fferyllfa Lloyds, 8-10 Sgwâr Glyndŵr, Aberystwyth, SY23 2IL. Cyfle i aelodau Cyngor Cymuned Ystrad Fflur i gynnwys y Cadeirydd y Cyngh. Gareth Edwards, i ddathlu'r prosiect ,wrth iddo symud i'r cam cyd-gyflawni

- Cafodd y prosiect ei ystyried gan Thîm Llunio Lle, artistiaid a gweithwyr proffesiynol Lle, swyddogion y Cyngor;
- Gwrandawyd ar siaradwyr o Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion, Cyngor Sir Ceredigion ac Un Llais Cymru;
- Stondinau Gwybodaeth- cyngor a chyllid;
- Rhwydweithio.

Diolchodd Mr Chris Jones, Cydlynnydd y Prosiect, i'r rhai a oedd wedi mynychu digwyddiad Lluio Lle yn Aberystwyth, a oedd gyfle i edrych yn ôl ar y broses, ond yn bwysicach i edrych i'r dyfodol. Gobeithiodd eu bod wedi darparu sylfaen gref i wella llesiant cymuned wledig Pontrhydfendigaid ac i nodi cyfleoedd i gydweithio â phentrefi a lleoedd eraill ledled y Sir. Y porth digidol i'w weld yma:

<https://placemaking-ceredigion.wales/>

Diolchodd i bawb am gydweithio.

O hyn ymlaen, rhaid cysylltu â ldp@ceredigion.gov.uk, Cyngor Sir Ceredigion mewn perthynas â'r prosiect.

6.3 Ardal Chwarae Pantyfedwen

Derbyniwyd grant Cynnal y Cardi, Cyngor Sir Ceredigion o £11,700.

Cynhaliwyd Arolygiad Chwarae Rospa blyneddol ym mis Mehefin ac ystyriwyd goblygiadau'r adroddiad. Dyfyniadau i'w ceisio ar gyfer paentio, rheiliau, siglenni, llawr rwber ac i roi sylw i'r bylchau sy'n amlwg ar y matiau.

6.4 Gwrthwynebiad ffurfiol gan Gyngor Cymuned Ystrad Fflur i Adolygiad y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau o Drefniadau Cymunedol; Cytunwyd anfon llythyr o wrthwynebiad i'r 6 AS Ceredigion Penfro.

6.5 Ffenestri - Cysgodfan Fws – 2 rhan wedi'u difrodi . Archebwyd y rhannau newydd i'w ffitio ar ôl eu derbyn. (Delun)

6.6 Cyflwyniad Nant y Maen EDF: Y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies i gyflwyno ymholiad i'r Cwmni.

6.7 Diffibrilwyr yr ardal: Holodd y Cynghorydd Ieuan Davies ynghynt mewn perthynas â'r statws cofrestru diffibrilwyr lleol o fewn y Gylchdaith. Nodwyd nad oedd yr ysgol leol wedi cofrestru'r diffibriliwr ar ei thir ac, roedd bagiau wedi'u pentyrru ger y diffibriliwr, a allai fod yn rhwystr mewn argyfwng. Y Cynghorydd Gareth Edwards i drafod y mater â'r ysgol.

6.8 Roedd clymog Japan yn gonsyrn ar Lan yr Afon: Y Cyngor Cymuned i ymwneud â'r mater cyn mis Medi.

6.9 Blodau wrth fynedfeydd y Pentref dros fisoedd yr haf: Cytunwyd i'r Cynghorydd Ifan Davies drefnu arddangosfa blodau wrth y ddwy fynedfa'r Pentref ac o flaen Neuadd Pantyfedwen. Cyllideb £250. Diolchwyd i'r Cynghorydd Alun Price Jones am ei waith yn y gorffennol yn ymwneud â chymryd cyfrifoldeb am yr arddangosfeydd blodau'r pentref dros fisoedd yr haf.

6.10 Gwobrau Caru Ceredigion 2026

Bydd Gwobrau Caru Ceredigion 2026, a gynhelir ar y 10fed o Ragfyr 2026 yng Ngwesty'r Plu, Aberaeron, yn cydnabod cyfraniadau a chyflawniadau eithriadol busnesau, prosiectau cymunedol ac unigolion o bob cwr o'r sir.

Roedd ceisiadau ar gyfer y gwobrau bellach ar agor.

Sut i wneud cais:

Mae categorïau'r gwobrau wedi'u rhestru drwy ddilyn y ddolen isod, ynghyd â disgrifiad byr. Cliciwch ar y dolenni unigol i gael rhagor o wybodaeth am y categori,

yn ogystal â'r ffurflen gais am wobwr. Gellir cyflwyno ceisiadau papur hefyd, e-bostiwrch gwoabrauceredigion@technegol.co.uk am wybodaeth pellach.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd hanner nos, dydd Gwener 16eg o Hydref, 2026.

I fod yn gymwys ar gyfer unrhyw gategori, rhaid i gymunedau a busnesau fod yn gweithredu neu fod â lleoliad ffisegol yng Ngheredigion, gydag unrhyw weithgareddau perthnasol sy'n rhan o'r cais yn cael eu cynnal rhwng 1 Tachwedd 2025 a 1 Rhagfyr 2026.

[Gwobr Cymunedol - Cyngor Sir Ceredigion](#)

Cytunwyd ar 2 enwebiad. Y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies a'r Cynghorydd Ieuan Davies i roi sylw i'r mater.

6.11 Is-bwyllgorau:

Mynychodd y Cynghorydd Angharad Jones Gyfarfodydd Llywodraethwyr yr Ysgol a gynhaliwyd bob 3 mis.

Pwyllgor y Neuadd: Bydd y Clwb Pêl-droed yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ym mis Mawrth 2027. Gêm Bêl-droed Elusennol i'w threfnu. Diolchodd y Cynghorydd Richard Jones i'r aelodau am eu cefnogaeth yn ystod y Noson Adloniant ddiweddar.

7. GOHEBIAETH

- 7.1 Lleoliadau Cymunedol i gefnogi Trefniadau Ymateb Brys:** Gan Swyddog Partneriaeth Sifil Wrth Gefn a Diogelwch Cymunedol, Cyngor Sir Ceredigion Wrth i gymunedau ledled Cymru a'r DU barhau i wynebu heriau brys fel tanau gwyllt, llifogydd a thywydd garw, roedd y Tîm Argyfyngau Sifil yn adnewyddu a chryfhau trefniadau ymateb brys lleol. Roedden nhw am nodi lleoliadau ychwanegol a allai gefnogi cymunedau lleol yn ystod argyfyngau e.e. neuaddau pentref, canolfannau cymunedol, clybiau chwaraeon a chyfleusterau cymuned pellach. Cytunwyd awgrymu Neuadd Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid.
- 7.2 Un Llais Cymru:** Cynrychiolydd y Pwyllgor Ardal: Cytunwyd anfon enw'r Cadeirydd ymlaen sef y Cynghorydd Gareth Edwards.
- 7.3 Holiadur: Gofynnwyd i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru** archwilio agweddau a chanfyddiadau Cynghorwyr Tref a Chymuned gan ystyried eu barn ar faint a strwythur cynghorau o'r fath a sut maent yn amrywio yn ôl amgylchiadau lleol. Er gwybodaeth.
- 7.4 Gohebiaeth arall:** Er gwybodaeth yn unig - roedd llawer o negeseuon e-bost wedi'u hanfon ymlaen at Gynghorwyr, rhwng cyfarfodydd, yn electronig.

8. CYNLLUNIO – dim materion cynllunio i'w hadrodd.

9. CYLLID

TALIADAU

9.1 Cyflog y Clerc: Gorffennaf 2026 £238.33

9.2 Costau Swyddfa'r Clerc: £34.81; £72.66

- 9.3 Archwiliad Ariannol 2025-26:** Llofnodwyd y Ffurflen Flynyddol gan y Cadeirydd a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ar y 30ain o Fehefin 2026.
Ymgymherodd Mrs Enid Hughes â'r Archwiliad Mewnol (ffi £100) a chanfuwyd ei fod yn foddhaol; anfonir dogfennau perthnasol at yr Archwilydd Allanol erbyn 7 Gorffennaf 2026.
- 9.4 Cyfrif Premiwm Busnes** Llog £0.03
- 9.5 Cyfrif Premiwm Busnes** – Cyfrif Ysgoloriaeth – llog £0.75
- 9.6 Arolygiad Diogelwch Chwarae RoSPA** £114
- 9.7 Ysgoloriaeth** – Ysgol Bont £20

DERBYNIADAU

- 9.8 Grant Maes Chwarae Cyngor Sir Ceredigion** £11,763.00

11. Eitemau ar gyfer Facebook: Dim.

12 UNRHYW FATER ARALL

- 12.1 Gwelwyd pobl ifanc yn eistedd** ar brif bont y pentref yn achlysurol. Y Cynghorydd Angharad Jones i drafod y mater â'r ysgol cyn gwyliau'r haf.
- 12.2 Cytunwyd diolch i Mrs Clare Hughes** am ei gwaith diflino wrth gasglu sbwriel yn y gymdogaeth.
- 12.3 Tarmac yn rhydd ar y troad i Heol yr Abaty:** i adrodd at sylw Cyngor Sir Ceredigion.

Gan nad oedd unrhyw fater pellach, daeth y cyfarfod i ben am 9.15 pm.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos lau 17 Medi 2026 @7pm.

Llofnod/ Dyddiad -----